Taflen Ffeithiau 9: Recriwtio Staff

Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth briodol, cefnogaeth a chyngor i chi am sefydlu a defnyddio taliadau uniongyrchol.

Byddwch yn cael y cyngor a'r cymorth sydd angen i chi ystyried pan rydych yn recriwtio eich staff eich hun. Os ydych yn dewis peidio derbyn y gefnogaeth hon, mae nifer o bethau sydd angen i chi ystyried wrth recriwtio a chyflogi eich staff eich hun.

Bydd cyfraith cyflogaeth yn gymwys i chi fel cyflogwr ac mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich prosesau yn gweithredu o fewn y gyfraith.

Pethau i feddwl amdanynt:

- Ysgrifennu disgrifiadau swydd, manylebau swydd, hysbyseb swydd
- Amodau gwasanaeth cymorthyddion personol; cyfraddau cyflog; er enghraifft.
- Beth fyddant yn ei wneud, sut a phryd?
- Pa hyfforddiant sydd ei angen?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud pan maent ar wyliau, yn sâl neu angen amser arall i ffwrdd o'r gwaith heb rybudd?
- Sut i gadw'n ddiogel wrth hysbysebu, cyfweld a recriwtio?

Mae Cyngor Sir Y Fflint yn argymell eich bod yn:

- Peidio nodi yn yr hysbyseb pwy ydych chi a lle rydych yn byw.
- Peidio cyfweld yn eich cartref eich hun.
- Gofyn am eirdaon.
- Gofyn i'r cyngor gynnal gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol ar eich rhan.
- Peidio cynnal y cyfweliad ar eich pen eich hun.
- Gwirio pa gwestiynau y gellir gofyn y gyfreithiol yn y cyfweliad.

Mae Cyngor Sir Y Fflint yn mynnu nad ydych yn dechrau proses recriwtio heb ofyn i aelod o'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yn gyntaf.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk